**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Christine.Chapman@cynulliad.cymru

3 Tachwedd 2015

Annwyl Christine

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref, lle anfonwyd adroddiad cyfnod 1 y pwyllgor ataf. Fel yr amlinellais yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref, rwy'n falch o allu derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y pwyllgor. Meddyliais y byddai'n ddefnyddiol ymateb yn ffurfiol i bob argymhelliad cyn cyfarfod cyfnod 2 y pwyllgor.

**Argymhelliad 1**

Rwy'n croesawu argymhelliad y pwyllgor i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2**

Mae'n dda gennyf dderbyn argymhelliad y pwyllgor y dylai adran 33(2) o'r Bil gyfeirio'n benodol at enwau lleoedd hanesyddol. Byddaf yn cyflwyno gwelliant yn ystod cyfnod 2 i gynnig mynediad at yr agwedd hon o dreftadaeth Cymru drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

**Argymhelliad 3**

Cytunaf y byddai'n fuddiol darparu canllawiau ar gamau diogelu dros dro a goblygiadau dynodi i berchnogion a deiliaid henebion neu adeiladau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cofrestru neu restru. Mae canllawiau ar ddeall adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn cael eu paratoi i gyd-fynd â dechrau'r gweithdrefnau dynodi newydd. Bydd y canllawiau hyn yn nodi cyfrifoldebau perchnogion asedau hanesyddol. Cafodd *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, dogfen ganllaw newydd sydd wedi'i hanelu at berchnogion, ei chyhoeddi fel drafft cyn ymgynghori pan gafodd y Bil ei gyflwyno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Argymhelliad 4**

Yn y Cyfarfod Llawn, cytunais i ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb cynnwys system o ddiogelwch statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol yn y Bil. Wrth drafod cwmpas y Bil, cafodd system statudol o'r fath ei hystyried. Ni weithredwyd ar hyn bryd hynny gan y byddai wedi cymhlethu'r sefyllfa ymhellach i berchnogion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd fy swyddogion yn ailedrych ar yr opsiynau i wella'r ffordd y caiff parciau a gerddi hanesyddol eu diogelu. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor cyn i gyfnod 2 gael ei gwblhau, yn unol â'r cais yn eich adroddiad.

**Argymhelliad 5**

Cyn cyflwyno'r darpariaethau hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig, bydd canllawiau ar sut y dylid eu defnyddio yn cael eu rhoi i awdurdodau cynllunio lleol. Hefyd, tua diwedd 2016, byddwn yn cyhoeddi *Rheoli Adeiladau Rhestredig dan Fygythiad,* a fydd yn rhoi canllawiau ar reoli adeiladau sydd dan fygythiad mewn ffordd gadarnhaol ac yn nodi opsiynau cymorth. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y pwerau cyfreithiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol pan fydd pob ymdrech arall i ailddechrau defnyddio adeiladau dan fygythiad yn methu.

**Argymhelliad 6**

Caiff cyngor ar bwerau ehangu cwmpas gwaith brys ei roi i awdurdodau cynllunio lleol cyn i'r darpariaethau gael eu cyflwyno. Fel y nodwyd o dan yr argymhelliad blaenorol, bydd y canllawiau a gyhoeddir tua diwedd 2016, sef *Rheoli Adeiladau Rhestredig dan Fygythiad*, hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y pwerau cyfreithiol sydd ar gael gan awdurdodau cynllunio lleol i ddelio ag adeiladau dan fygythiad.

**Argymhelliad 7**

Y bwriad polisi dros gyflwyno pridiannau tir lleol sy'n ymwneud â gwaith brys yw annog awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio pwerau presennol i atal adeiladau rhestredig rhag dirywio ymhellach drwy eu galluogi i adennill costau mewn ffordd effeithiol.

**Argymhelliad 8**

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyfateb i'r rhai mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Drwy gyfeirio at Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925, mae'n caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio pwerau a rhwymedïau penodol i orfodi'r pridiant, gan gynnwys gwerthu dan orfod. Mae cyfraith achosion i gefnogi'r safbwynt bod y geiriad a ddefnyddir yn adran 30 yn ddigonol i greu arwystl â blaenoriaeth.

**Argymhelliad 9**

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ystod o bwerau statudol eisoes i fynd i'r afael ag adeiladau rhestredig sy'n cael eu hesgeuluso gan eu perchnogion - pwerau y bydd y Bil yn eu hymestyn. Fodd bynnag, byddwn yn ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno cosbau ariannol am esgeuluso bwriadol. Mae'r materion yn gymhleth, felly ni fydd y canlyniadau ar gael mewn pryd i lywio darpariaethau'r Bil.

**Argymhelliad 10**

Ysgrifennais at Gomisiynydd y Gymraeg i roi gwybodaeth iddi am gynnwys a gweithrediad y cofnodion amgylchedd hanesyddol ac mae fy swyddogion yn trafod y ffordd briodol o roi'r Safonau'r Gymraeg ar waith gyda'i swyddogion.

**Argymhelliad 11**

Amcangyfrifir y bydd gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu a chynnal rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn costio tua £3.5 miliwn. Yn y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, lleisiodd nifer o dystion bryderon ynglŷn â'r effaith andwyol y gallai dyletswydd o'r fath ei chael ar allu awdurdodau cynllunio lleol i ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Credaf y dylai awdurdodau cynllunio lleol allu pennu eu blaenoriaethau eu hunain. Bydd *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig* — y canllawiau a gyhoeddwyd fel drafft cyn ymgynghori pan gafodd y Bil ei gyflwyno — yn eu cynorthwyo i lunio rhestrau lleol gyda chyfranogiad llawn cymunedau lleol.

**Argymhelliad 12**

Cyn cyflwyno'r darpariaethau ar gytundebau partneriaeth dreftadaeth, caiff canllawiau, sy'n seiliedig ar brofiad o ddefnyddio cytundebau tebyg yn Lloegr, eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 13**

Cytunaf y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol a pherchnogion sydd â diddordeb mewn datblygu cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw) yn mentora ac yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol sy'n ymrwymo i gytundebau partneriaeth dreftadaeth 'braenaru'.

**Argymhelliad 14**

Cytunaf y dylai'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru lunio adroddiad ar ei weithgareddau sydd ar gael i'r cyhoedd.  Fodd bynnag, gan mai rhaglen waith tair blynedd sydd gan y panel, credaf y byddai adroddiad bod tair blynedd yn fwy priodol.

Yn gywir



**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism